1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Canllaw Byr

1872

# Dyma dy le


**Croeso i'n Canllaw Byr. Yma byddi'n dysgu mwy am astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan gynnwys sut i wneud cais, ein meysydd pwnc, bywyd myfyrwyr, cymorth i fyfyrwyr a mwy.**

I gael deall yn union sut beth yw astudio yn Aberystwyth, tyrd i Ddiwrnod Agored. Byddi'n cael cwrdd â staff a myfyrwyr, mynd o amgylch ein campws, gweld ein cyfleusterau a mwy. Cofrestra yma: **aber.ac.uk/diwrnodagored**



# Ein Pynciau

Mae addysg prifysgol yn agor drysau i fyd o gwestiynau newydd, sy'n golygu y gallwch gael eich arwain yn ôl eich diddordebau, dewis eang o bynciau a modiwlau, ac arbenigedd ymchwil ac addysgu byd-enwog.



## Addysg ac Astudiaethau Plentyndod

Astudiaeth o'r ffordd yr ydyn ni'n dysgu yw Addysg - sut rydyn ni'n meddwl, sut rydyn ni'n derbyn gwybodaeth a'i phrosesu, yn deall cysyniadau newydd, a datblygu galluoedd newydd. Mae hefyd yn ymwneud ag astudio'r dull mwyaf effeithiol i ysgolion, athrawon, rhieni a chymunedau gefnogi dysgu, fel y gall plant a phobl ifanc gyflawni eu haddewid yn llwyr. Mae Astudiaethau Plentyndod yn ymwneud â'r ffordd mae plant yn dysgu a datblygu, ond hefyd sut mae plentyndod yn cael ei ddeall mewn gwahanol gyd-destunau a diwylliannau, a sut mae gwasanaethau amrywiol i blant a theuluoedd yn cael eu trefnu a'u darparu.

## Amaethyddiaeth

Mae angen ffermwyr, rheolwyr a chynghorwyr dawnus a hynod fedrus ar y byd er mwyn sicrhau bod y diwydiant hanfodol, amrywiol a thechnolegol hwn yn barod ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Yn Aberystwyth, mae ein myfyrwyr yn elwa o'r amrywiaeth mawr o dir ffermio a thirwedd amaethyddol, sy'n cael eu ffermio'n fasnachol gan y Brifysgol ac yn cael eu defnyddio at ddibenion dysgu ac ymchwil.

## Astudiaethau Gwybodaeth

Wedi'i sefydlu ym 1964, mae'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth yn darparu addysg o'r radd flaenaf i'r rhai sy'n gweithio neu'n cynllunio gyrfa ym meysydd llyfrgelloedd, archifau, a byd cyfnewidiol gwybodaeth ddigidol.

## Astudiaethau Milfeddygol

Prifysgol Aberystwyth yw'r unig brifysgol yng Nghymru i gynnig BVSc mewn Gwyddor Milfeddygaeth. Mae'r radd, a ddysgir ar y cyd, yn cynnig cyfle unigryw i hyfforddi mewn dau sefydliad addysgol a gwyddonol blaengar: y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol (RVC) a Phrifysgol Aberystwyth. Mae Aberystwyth hefyd yn cynnig gradd sylfaen mewn Nyrsio Milfeddygol. Mae'r ddau gwrs yn cyflwyno dealltwriaeth ddamcaniaethol, academaidd ac ymarferol fanwl o ofal milfeddygol.

## Biocemeg a Geneteg

Trwy astudio geneteg rydych yn astudio sylfaen bywyd, amrywioldeb ac esblygiad, boed hynny yng nghyswllt pobl, planhigion neu anifeiliaid. Mae biocemeg yn canolbwyntio ar y prosesau cemegol sy'n digwydd mewn organebau byw. Mae'r ddwy ddisgyblaeth yn croestorri mewn meysydd pwysig, megis meddygaeth, maeth, biotechnoleg, a fferylliaeth, ac yn arwain at gyfleoedd gyrfa mewn meysydd hanfodol, lle ceisir datblygiadau gwyddonol yn barhaus.

## Bioleg Ddynol ac Iechyd

Mae Gwyddonwyr Biofeddygol yn astudio swyddogaeth y corff dynol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth wyddonol i atal a thrin cyflyrau meddygol. Yn Aberystwyth, gallwch astudio cwricwlwm eang o ddisgyblaethau biolegol i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o'r prif amodau sy'n dylanwadu ar iechyd dynol yn yr 21ain ganrif. Mae'r rhain yn cynnwys ffisioleg, biomecaneg, microbioleg, imiwnoleg, geneteg a gwyddor ymarfer corff, a bydd pob un o'r rhain yn rhoi gwerthfawrogiad i chi o sut mae diet, ynghyd â gweithgaredd corfforol ac ymarfer corff rheolaidd, yn chwarae rhan arwyddocaol mewn cynnal iechyd a lles.

## Busnes a Rheolaeth

Mae Busnes a Rheolaeth yn ddisgyblaeth ymarferol ac academaidd sy'n ymdrin â phynciau sy'n amrywio o arweinyddiaeth, ymddygiad sefydliadol a thechnoleg gwybodaeth, i ddadansoddeg data, rheoli'r gadwyn gyflenwi a logisteg fyd-eang. Mae gradd mewn Rheolaeth a Busnes fel arfer yn cynnwys elfennau o ddisgyblaethau eraill fel Cyfrifeg a Chyllid, Marchnata, Economeg a Thwristiaeth.

## Celf a Ffotograffiaeth

Mae cartref yr Ysgol Gelf yn adeilad rhestredig godidog, cofrestredig Gradd-II, lle mae hanes a thraddodiad yn cyfuno ag ymarfer cyfoes. Yn y lle hwn, mae celf yn cael ei chreu, ei thrafod, ei harddangos a'i phrofi. Byddwch yn cael eich trochi mewn ymarfer celfyddydol a churadurol, ac mewn ymchwil i hanes celf.

## Cyfrifeg a Chyllid

Mae Cyfrifeg a Chyllid yn ymdrin â chysyniadau arian, busnes a rheolaeth, gyda phwyslais ar yrfaoedd proffesiynol yn y meysydd hyn. Mae cyfrifeg yn ymwneud â dadansoddi gwybodaeth ar gyfer gwahanol agweddau ar fusnesau, ond ymwneud â chronfeydd ariannol busnesau yn unig y mae cyllid. Bydd ein cyrsiau, sydd wedi cael sawl achrediad, yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol sydd eu hangen, yn deillio o'r sector cyfrifeg a chyllid byd-eang.

## Cyfrifiadureg

O ddatblygu camerâu i'w defnyddio mewn teithiau i'r gofod, i ddatblygu ffyrdd gwell o sgrinio am ganserau, mae ein hymchwil wedi cyfrannu at rai o ddigwyddiadau pwysicaf ein hanes.

## Cymdeithaseg

Drwy archwilio'r dirwedd wleidyddol ac ystyried materion cyfoes fel troseddu, addysg, lles cymdeithasol, anghydraddoldeb, crefydd, hil a rhywedd, a thrwy ddefnyddio safbwyntiau damcaniaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feirniadu'r gymdeithas, gall cymdeithasegwyr arwain at newid trawsnewidiol i greu byd gwell i bawb.

## Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear a'r Amgylchedd

Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio Daearyddiaeth, Gwyddorau Daear a'r Amgylchedd. Mae'r dref yn sefyll rhwng bryniau'r Canolbarth ac arfordir y Gorllewin, ac felly cewch fanteisio ar yr holl adnoddau naturiol yma a fydd yn eich cynorthwyo â'ch astudiaethau. Mae ein cyrsiau Daearyddiaeth, Daearyddiaeth Ddynol a Daearyddiaeth Ffisegol wedi'u hachredu gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol.

## Drama a Theatr

Yn Aberystwyth, rydym yn ymdrin â phynciau Drama a Theatr yn y ffordd ehangaf bosib. Yma, rydym yn adeiladu ar sylfaen eich diddordebau presennol, eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn drama, theatr a pherfformio, ond dros y tair blynedd byddwn yn anelu at herio'ch rhagdybiaethau a'ch disgwyliadau, i ehangu ac estyn eich safbwynt ar beth yw drama a theatr.

## Economeg

Mae Economeg yn astudio dewis; yn Aberystwyth rydym yn rhoi cyfle i fyfyrwyr i ymchwilio i sut y mae pobl yn gwneud eu dewisiadau. P'un a ydynt yn craffu ar gwsmeriaid a chorfforaethau, neu'n dadansoddi grwpiau a llywodraethau, mae ein myfyrwyr yn datblygu sgiliau i ddadansoddi'r byd o'u blaenau a llunio casgliadau am yr hyn sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol.

## Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau

P'un a oes gennych ddiddordeb yn y ddelwedd symudol fel ffurf gelfyddydol neu fel diwydiant, creu ffilmiau, neu astudio testunau ffilm a theledu eu hunain, bydd ein gradd amrywiol mewn Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Aberystwyth yn rhoi digon o gyfle i chi archwilio gwahanol ddulliau creadigol, technegol a beirniadol mewn cymuned fywiog.

## Ffiseg

Mae ein ffisegwyr ni ymhlith arbenigwyr pennaf y Deyrnas Unedig ac maent yn gweithio ar brosiectau sy'n amrywio o ddyfeisio deunyddiau newydd a chyfarpar newydd i deithiau planedol ac astudiaethau arloesol ar yr hyn sy'n digwydd yn yr Haul. Mae mwyafrif o'n cyrsiau Ffiseg wedi'u hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP).






























## Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yw'r adran gyntaf o'i bath yn y byd. Fe'i sefydlwyd ym 1919. Gyda changhennau sy'n cwmpasu cudd-wybodaeth a diogelwch, newid yn yr hinsawdd a datblygu byd-eang, mae ein rhaglenni Cysylltiadau Ryngwladol yn darparu amgylchedd eithriadol ar gyfer astudio'r materion a'r cysyniadau mwyaf arwyddocaol sy'n dylanwadu ar wleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol heddiw.

## Gwyddor Anifeiliaid a Gwyddor Ddyfrol

Mae'r Gwyddorau Anifeiliaid a Dyfrol yn Aberystwyth yn cynnwys Ymddygiad Anifeiliaid, Gwyddor Anifeiliaid, Biowyddorau Ceffylau a Milfeddygol, Gwyddor Ceffylau, Bioleg y Môr a Dŵr Croyw, Cadwraeth Bywyd Gwyllt a Sŵoleg. Byddwch yn astudio mewn athrofa o safon fyd-eang y mae ei hymchwil yn cyfrannu at ddatrys materion byd-eang megis atal heintiau marwol, sicrhau cyflenwadau bwyd a thyfu cnydau mewn pridd sy'n dueddol i ddioddef sychder, datblygu tanwyddau cynaliadwy ac ecogyfeillgar, ac astudio effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau.

## Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

Drwy gyfuno disgyblaethau fel Ffisioleg, Seicoleg a Biomecaneg, Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff mae Aberystwyth yn rhoi cyfle i chi i ddysgu'r sgiliau cymhwysol, y wybodaeth a'r cymwyseddau a fydd yn sylfaen ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol. Mae Gwyddonwyr Chwaraeon ac Ymarfer Corff wedi gweithio gydag athletwyr sydd wedi cystadlu ar lefel pencampwriaethau Ewrop a'r byd.

## Gwyddorau Ecolegol

Mae Ecoleg yn astudio sut mae organebau'n rhyngweithio â'i gilydd ac â'r amgylchedd naturiol. Mae angen cenhedlaeth newydd o ecolegwyr a all ymateb i'r heriau amgylcheddol fydd yn ein hwynebu yn y dyfodol, a hynny ar frys. Mae'r heriau hyn yn cynnwys dinistrio cynefinoedd, newid yn yr hinsawdd, micro-blastigau, clefydau a mwy.

## Hanes

Mae hanes yn cael ei ddysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth ers y 1870au sy'n golygu ein bod ymhlith yr adrannau Hanes hynaf yng Nghymru. Rydym yn astudio amrywiaeth eang o gyfnodau hanesyddol a fydd yn apelio at eich diddordebau a hogi'ch awch am ddysgu mwy am hanes.

## Ieithoedd Modern

Ni fu erioed amser mwy cyffrous i astudio ieithoedd. Gydag ieithoedd eraill yn cystadlu â'r Saesneg i fod yn brif iaith gyfathrebu fyd-eang, mae mwy o resymau nag erioed dros fod yn ddwyieithog neu hyd yn oed yn amlieithog. Yma yn Aberystwyth, rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i astudio Ffrangeg, Sbaeneg, Almaeneg ac Eidaleg, naill ai fel rhaglenni gradd anrhydedd sengl neu ar y cyd yn achos Sbaeneg a Ffrangeg, neu yn rhan o radd gyfun yn achos Almaeneg ac Eidaleg.

## Marchnata

Mae gyrfa ym maes Marchnata yn ddewis dynamig ac egnïol, a'r maes ei hun yn llawn arloesi, creadigrwydd a gwneud penderfyniadau "greddfol" ar sail data. Mae astudio twristiaeth yn ddewis perffaith i fyfyrwyr sy'n hoffi teithio, sy'n chwilio am antur, ac yn awyddus i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol. Cynlluniwyd ein cyrsiau achrededig i'ch cynorthwyo i lwyddo yn y diwydiannau hyn sy'n symud yn gyflym a newid yn barhaus, ac i arwain at yrfa lwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

## Mathemateg

Mathemateg yw gwyddor rhifau a'u gweithrediadau. Mae mathemateg yn cael eu cymhwyso i bob cangen o wyddoniaeth ac i lawer o feysydd busnes a chyllid. Mae hi wrth wraidd yr holl dechnoleg fodern. Mae gennym ystod o gynlluniau gradd gan gynnwys anrhydedd sengl mewn mathemateg, mathemateg bur a chymhwysol, modelu mathemategol ac ystadegaeth.

## Nyrsio

Rydym yn cynnig cyrsiau BSc Nyrsio Oedolion a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl yn Aberystwyth. Mae ein cyrsiau Nyrsio yn cynnig profiad dysgu pwrpasol ac agos-atoch. Mae'r Ganolfan Addysg Gofal Iechyd newydd gael ei sefydlu ac mae'n gartref i'r Uned Sgiliau Clinigol lle ceir y dechnoleg efelychu ddiweddaraf er mwyn i chi ddysgu sgiliau clinigol mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

## Peirianneg

Yn rhan o'r ymdrech tuag at sero net, cynaliadwyedd yw llinyn craidd Peirianneg yn Aberystwyth. Trwy astudio gyda ni, byddwch yn dysgu i werthfawrogi pwysigrwydd datrysiadau carbon isel ar gyfer ein byd yn y dyfodol ac yn datblygu'r sgiliau priodol ar gyfer y gweithle a'r marchnadoedd ynni adnewyddadwy sydd ar eu twf.

## Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Rydym yn cynnig cyrsiau hyblyg sy'n cyfuno elfennau gorau astudiaethau llenyddol traddodiadol â dulliau cyffrous ac arloesol o ymdrin â'n pynciau. O Chaucer i ffuglen drosedd, mae grym y gair ysgrifenedig yn gallu darparu gwybodaeth, ein herio a newid ein dirnadaeth. Yn Aberystwyth gallwch sianelu'ch angerdd am ddarllen ac ysgrifennu, a gwneud eich cyfraniadau'ch hun tuag at ein treftadaeth lenyddol hir ac at lenyddiaeth y dyfodol.

## Seicoleg

Gwyddor y Meddwl ac Ymddygiad yw Seicoleg; mae hynny'n golygu ei bod yn bwnc eang sy'n ceisio deall ymddygiad dynol, o'r esboniadau biolegol ar sut mae'r ymennydd yn gweithio, i'r ddealltwriaeth gymdeithasol am sut rydym yn rhyngweithio â'n hamgylchedd ac yn ymaddasu ato, neu'n newid yn wybyddol wrth i ni fynd yn hŷn.

## Troseddeg

Mae Troseddeg yn bwnc eang a hynod ddiddorol sy'n ystyried beth sy'n achosi troseddu, effeithiau troseddau, a sut i reoli ac atal troseddu. Yn y pen draw, wrth ddeall beth sy'n achosi troseddu, mae troseddegwyr yn chwilio am ffyrdd o atal troseddu a lliniaru'r niwed a achosir. Mae'n ystyried beth yw canlyniadau labelu rhywun yn 'droseddwr', a sut mae cymdeithas yn ymateb i ymddygiad troseddol drwy ddod o hyd i'r rhai sy'n cyflawni troseddau, a'u cosbi a'u hailsefydlu.

## Y Biowyddorau

Mae ecoleg gyfoethog Cymru yn darparu'r amgylchedd perffaith i ddatblygu a mireinio eich sgiliau fel biolegydd. Gan gyfuno gwaith damcaniaethol gwyddonol â gwaith ymarferol yn y labordy a'r maes, byddwch yn datblygu gwell dealltwriaeth am y byd o'ch cwmpas a sut mae'n gweithio.

## Y Gyfraith

Mae'r Gyfraith yn cael ei dysgu yn Aberystwyth ers 1901. Mae gan yr Adran draddodiad balch o ysgolheictod ac ymchwil ac mae wedi paratoi cenedlaethau o bobl o bedwar ban byd ar gyfer gyrfaoedd proffesiynol ac ar gyfer bywyd yn gyffredinol. Mae ein holl raddau israddedig yn y gyfraith yn cynnig sylfaen dda ar gyfer ymuno â'r proffesiynau cyfreithiol ac i'r rhai sy'n ymbaratoi am y cymhwyster yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr.

## Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Mae Aberystwyth yn cynnig cyfleoedd unigryw i'w myfyrwyr i ddysgu Llydaweg, Gwyddeleg, Gaeleg yr Alban, a'r Gymraeg - o safon dechreuwyr i siaradwyr hyderus a rhugl. Aberystwyth yw cartref Cymraeg Proffesiynol ac mae'r radd hwnnw, sy'n arwain y sector, yn boblogaidd ymhlith myfyrwyr a chyflogwyr sy'n chwilio am 'safon aur' yn yr iaith.
















# Dewis eich gradd





Dyma eglurhad o'r mathau o raddau israddedig sydd yn cael eu cynnig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Graddau anrhydedd sengl

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn un pwnc yn unig, hwn o bosibl yw'r llwybr iawn i chi. Mae cwrs gradd anrhydedd sengl yn golygu y byddwch chi'n astudio un pwnc yn unig, megis Bioleg neu Hanes.

## Graddau anrhydedd cyfun

Mae gradd anrhydedd cyfun yn golygu y byddwch chi'n astudio dau bwnc. Nid oes raid iddynt fod yn gysylltiedig â'i gilydd na hyd yn oed o'r un ddisgyblaeth.

Gallwch astudio pob pwnc yn hafal, neu gallwch ddewis canolbwyntio mwy ar un (eich 'prif' bwnc) na'r llall (eich 'is' bwnc). Cynlluniwyd graddau anrhydedd cyfun i fod yn hyblyg, felly drwy gydol eich cwrs gallwch chi benderfynu drosoch eich hun sut y caiff ei strwythuro.

## Anrhydeddau sengl gyda blwyddyn integredig o astudiaeth sylfaen

Mae ein cyrsiau anrhydedd sengl gyda blwyddyn integredig o astudiaeth sylfaen yn llwybr gwych i bynciau sy'n agos at eich calon, ond nad oes gennych lawer o brofiad ynddynt. Maent yn berffaith os hoffech chi newid cyfeiriad o'r hyn y gwnaethoch ei astudio yn yr ysgol neu'r coleg, neu os na chawsoch y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt wrth adael.

## Blwyddyn integredig mewn diwydiant / astudio dramor

Mae rhai o'n graddau'n rhoi cyfle i chi dreulio blwyddyn yn gweithio i gwmni o fewn y diwydiant y mae'ch gradd yn canolbwyntio arno, neu i astudio dramor gydag un o'n partneriaid ar draws y byd. Mae hwn yn gyfle gwych i gael profiad ymarferol, i weld a yw math penodol o waith yn addas i chi, i ddechrau gwneud cysylltiadau proffesiynol, neu cael blas ar ddiwylliant arall.

Mae blwyddyn integredig mewn diwydiant yn troi eich gradd yn rhaglen pedair blynedd. Daw ein myfyrwyr yn ôl o'u blwyddyn ym myd gwaith / astudio dramor wedi adfywio, gyda ffocws newydd ac yn barod i gymryd y camau nesaf ar eu taith academaidd a phroffesiynol.

## Graddau sylfaen

Mae graddau sylfaen fel rheol yn ddwy i dair blynedd o hyd, ac yn cyfuno astudiaethau academaidd â sgiliau ymarferol, y gallwch eu defnyddio yn y gweithle. Wrth gwblhau'r graddau hyn yn llwyddiannus gallwch symud ymlaen yn uniongyrchol i flwyddyn olaf rhai cyrsiau. Yn Aberystwyth, ar hyn o bryd rydym yn cynnig graddau sylfaen mewn Amaethyddiaeth a Nyrsio Milfeddygol.

> Fe wnaeth yr adran yn siŵr ein bod yn barod i weithio mewn diwydiant drwy gynnal nifer o ddigwyddiadau i ymarfer gwneud ceisiadau, canolfannau asesu a meithrin sgiliau.
>
> Gwnaethant hefyd annog myfyrwyr i dreulio blwyddyn mewn diwydiant - fe weithiais i ym mhencadlys Cwmni Walt Disney Ewrop yn Llundain!

**Natalia Miller, Cyfrifiadureg**



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Brifysgol hefyd yn rhoi Tiwtor Personol cyfrwng Cymraeg i chi, a gallwch gyflwyno eich holl asesiadau yn Gymraeg. Cymerwch olwg ar ein rhestr o gyrsiau ar-lein am wybodaeth am gyrsiau a modiwlau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallai myfyrwyr sy'n astudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd fod yn gymwys ar gyfer ysgoloriaethau Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Dysgwch fwy yma: **aber.ac.uk/ysgoloriaethau**



# Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau

## Cymorth Ariannol yn y Brifysgol

Mae Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau yn darparu arian ychwanegol i'ch helpu tuag at costau byw ac astudio yn y brifysgol.

Yn Aberystwyth, mae gennym ystod hael o ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau i helpu ein myfyrwyr. Mae rhai yn cael eu dyfarnu yn awtomatig, rhai yn seiliedig ar gystadleuaeth ac eraill yn cael eu asesu drwy ffurflen gais.

Ewch i'n gwefan i weld yr ystod lawn o Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau sydd ar gael: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**






# Gyrfaoedd a chyflogadwyedd

Ein nod yw sicrhau bod ein myfyrwyr yn graddio gyda'r profiadau academaidd, proffesiynol ac ymarferol i'w helpu i sefyll allan yn y farchnad swyddi a sicrhau cyflogaeth ystyrlon.

Mae ein Gwasanaeth Gyrfaoedd wrth law i gynnig cymorth ac arweiniad ar ddatblygu sgiliau, ennill profiad proffesiynol a gwneud cais am swyddi.

### Mae'r Gwasanaeth:

- Yn darparu cymorth o ran datblygu CV, gwneud cais am swyddi a chyfweliadau
- Yn cynnal digwyddiadau gyrfaoedd mawr lle gall myfyrwyr gwrdd â darpar gyflogwyr
- Yn cynnal gweithdai cyflogadwyedd a rhaglen Cymorth i Baratoi am Yrfa
- Yn cynorthwyo myfyrwyr i ystyried entrepreneuriaeth a menter.

### Profiad Gwaith

Mae nifer o gyrsiau yn cynnig blwyddyn integredig mewn diwydiant a gall myfyrwyr gael mynediad at Gynllun Blwyddyn mewn Gwaith y Gwasanaeth Gyrfaoedd, sy'n rhoi profiad proffesiynol perthnasol i ddysgwyr sy'n ategu eu hastudiaethau. Gall y Gwasanaeth hefyd helpu i nodi cyfleoedd profiad gwaith tymor byrrach, fel interniaethau haf, lleoliadau gwaith a gwaith rhan-amser.

Mae gan y Brifysgol gysylltiadau ag amrywiaeth o gyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan alluogi ein myfyrwyr i gysylltu â chyflogwyr blaenllaw ar draws sectorau.



# Darganfod y byd yn Aberystwyth

Mae astudio neu weithio dramor yn gwella eich addysg, gan gynnig profiadau unigryw a sgiliau gwerthfawr sy'n eich gwahaniaethu yn y farchnad swyddi.



### Mae'r cyfleoedd yn cynnwys:


- Astudio neu weithio dramor am dymor byr (o dri diwrnod i wyth wythnos)
- Astudio yn un o'r prifysgolion partner am semester neu flwyddyn
- Gweithio dramor yn ystod lleoliad blwyddyn mewn diwydiant

### Cefnogaeth wedi'i theilwra

Rydym yn sicrhau eich bod yn cael cefnogaeth cyn gadael, tra byddwch dramor ac wrth ddychwelyd. Rydym yn eich cynorthwyo i sicrhau cyllid, ac mae holl fyfyrwyr Aberystwyth yn derbyn yswiriant teithio am ddim i dalu am eu hamser dramor.

Cewch ragor o wybodaeth yma:
**aber.ac.uk/bydeang**

# Y broses ymgeisio





**Blwyddyn 12**: Maw, Ebr, Mai, Meh, Gor, Awst

**Blwyddyn 13**: Medi, Hyd, Tach, Rhag, Ion, Chwe, Maw, Ebr, Mai, Meh, Gor, Awst, Medi, Hyd

## Mis Mawrth – Ebrill

- Dechrau ymchwil am brifysgolion, mynychu digwyddiadau UCAS, cofrestru ar Ddiwrnodau Agored prifysgolion, Ysgolion Haf, Dyddiau Rhagflas, a.y.b.
- Gwneud cais am brofiad gwaith.

## Mis Mai – Awst

- Mynychu Diwrnodau Agored prifysgolion, rhaglenni Haf.
- Cael ychydig o brofiad gwaith.
- Dechrau meddwl am y Datganiad Personol byddwch yn ychwanegu i'ch cais UCAS.
- Dechrau ar eich cais UCAS.

## Mis Medi

- Parhau efo eich cais UCAS, gan gynnwys perffeithio eich Datganiad Personol.
- Mynychu Diwrnodau Agored prifysgolion.

## Mis Hydref

- Canol mis Hydref yw dyddiad cau UCAS i wneud cais i Rydychen a Chaergrawnt, ac i'r rhan fwyaf o gyrsiau Meddygaeth, Gwyddor/ Meddygaeth, Milfeddygaeth, a Deintyddiaeth.
- Mynychu Diwrnodau Agored prifysgolion.

## Mis Ionawr

- Canol Ionawr yw dyddiad cau UCAS ar gyfer ceisiadau i'r rhan fwyaf o gyrsiau prifysgol.
- Dyddiad cau nifer o brifysgolion ar gyfer ceisiadau Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau.

## Mis Chwefror - Mawrth


- Mynychu Diwrnodau Ymweld i Ymgeiswyr a / neu gyfweliadau.
- UCAS Extra yn agor ym mis Chwefror.
- Gwneud cais am Gyllid Myfyrwyr.
- Ystyried yr ymatebion i'ch cais ar UCAS. Fel arfer, mae prifysgolion yn ymateb i ymgeiswyr erbyn diwedd mis Mawrth.

## Mis Ebrill – Mehefin

- Ymgeiswyr i gadarnhau eu dewis Cadarn a'u dewis Wrth Gefn.
- Fel arfer, mis Mai yw'r dyddiad cau ar gyfer Cyllid Myfyrwyr er mwyn cael cyllid yn ei le ar gyfer dechrau eich cwrs.
- Mae'n bosib byddwch yn sefyll arholiadau yn ystod y cyfnod yma.

## Mis Gorffennaf - Hydref

- Clirio - os byddwch yn newid eich meddwl am y cwrs neu'r brifysgol rydych wedi gwneud cais iddi, neu heb gael unrhyw gynigion eto, gallwch wneud cais trwy Glirio.



# Bywyd ar y campws

**Bydd popeth sydd ei angen arnoch o fewn cyrraedd hwylus ar gampws Prifysgol Aberystwyth. Mae'r campws hefyd o fewn pellter cerdded o dref a phromenâd enwog Aberystwyth.**

Ar y campws ceir llety myfyrwyr, bwytai a chaffis, Undeb y Myfyrwyr, cyfleusterau dysgu ac astudio gan gynnwys dwy lyfrgell, Canolfan y Celfyddydau a'r Ganolfan Chwaraeon. Yn ogystal â hyn, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (sy'n llyfrgell hawlfraint) y drws nesaf i'r campws.

















# Bywyd myfyrwyr yn Aberystwyth

## Ar y campws

Mae bod yn brifysgol campws yn golygu bod mannau cymdeithasol, yn ogystal â llety a'n cyfleusterau addysgu a dysgu, i gyd o fewn pellter cerdded hawdd. Mae Undeb y Myfyrwyr wrth galon y campws ac mae'n cynnwys bar, caffi, siop a mannau i gwrdd â ffrindiau a chymdeithasu. Mae gan yr Undeb dros 100 o glybiau a chymdeithasau, sy'n golygu bod ein myfyrwyr yn gallu dilyn diddordebau oes neu ddarganfod diddordebau newydd.

Mae'r campws hefyd yn gartref i un o ganolfannau celfyddydau mwyaf Cymru, gyda theatr, sinema, mannau arddangos, stiwdios, bwyty a bar; a'r Ganolfan Chwaraeon, gyda champfa hunan-bweru, pwll, cae pob tywydd, trac rhedeg, wal ddringo a mwy (mae pob un ohonynt am ddim i fyfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol).

## Y dref

Mae Aberystwyth ei hun yn dref gyfeillgar a bywiog i fyfyrwyr. Gyda llu o siopau, bwytai, caffis a bariau, mae'r dref yn cynnig amgylchedd cynhwysol a chroesawgar lle gall myfyrwyr gymdeithasu, datblygu eu hannibyniaeth a bod yr hyn y maen nhw eisiau bod.

## Yr ardal gyfagos

Mae Aberystwyth ar yr arfordir, ac mae myfyrwyr yn treulio llawer o'u hamser hamdden yn cymdeithasu ar un o'r tri o draethau. Rydym hefyd wedi ein hamgylchynu gan gefn gwlad ac yn agos i Fynyddoedd y Canolbarth, sy'n golygu mai Aberystwyth yw'r lleoliad perffaith i fyfyrwyr sydd  â diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored fel padlfyrddio, heicio, beicio mynydd a dringo.

# Eich cartref oddi cartref

Efallai mai mynd i'r brifysgol fydd eich tro cyntaf oddi cartref, felly rydym am sicrhau eich bod yn dod o hyd i'r llety gorau ar eich cyfer.

Byw yn un o Neuaddau'r Brifysgol yw'r ffordd orau o ymgartrefu a gwneud ffrindiau, ac mae gennym amrywiaeth o ddewisiadau addas i bob angen a chyllideb, gan gynnwys cyfleusterau a rennir neu en-suite, adnoddau arlwyo neu hunanarlwyo a fflatiau stiwdio hunan-gynhwysol.

Mae Neuadd Pantycelyn yn cynnig cartref yn benodol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith, ac yn ganolbwynt i fywyd Cymdeithasol nifer o fyfyrwyr Cymraeg y Brifysgol.

Mae ein llety **ymhlith y gorau yn y DU**, gyda mannau cymdeithasol a dysgu ar y safle, ac o fewn pellter cerdded hawdd i'r campws, Undeb y Myfyrwyr, Canolfan y Celfyddydau a'r Ganolfan Chwaraeon. Mae ein ffioedd llety hefyd yn **cynnwys aelodaeth y Ganolfan Chwaraeon**, sy'n golygu cael mynediad am ddim a heb gyfyngiad i'r holl ddosbarthiadau a'r adnoddau.

Rydym yn **gwarantu llety** i holl fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf ac mae ein neuaddau ymhlith y rhai mwyaf fforddiadwy yn y DU. Dysgwch fwy yma: **aber.ac.uk/llety**

















# Cwrdd â’ch gofynion dysgu


Mae’r Brifysgol yn buddsoddi’n barhaus mewn cyfleusterau er mwyn sicrhau bod ein myfyrwyr yn gallu defnyddio adnoddau modern, hygyrch ac o’r radd flaenaf.

Yn ogystal ag adnoddau arbenigol o fewn adrannau, mae gan y Brifysgol ddwy lyfrgell ar y campws (un ohonynt ar agor 24/7) a lle pwrpasol i weithio yng nghanol y dref. Mae gennym dros 800 o gyfrifiaduron mynediad agored ar draws ein rhwydwaith ac rydym yn darparu cyfleusterau rhyngrwyd di-wifr cyflym a dibynadwy ar draws ein safle. Mae gan y Brifysgol hefyd ystod o fannau astudio deinamig, gan gynnwys lolfeydd astudio anffurfiol (sy’n ddelfrydol ar gyfer gwaith grŵp) ac ystafelloedd preifat y gellir eu harchebu.



Mae ein platfform dysgu rhithwir Blackboard yn golygu y gall myfyrwyr ddefnyddio deunydd cwrs yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg. Gall myfyrwyr hefyd fenthyca offer, megis gliniaduron, darllenwyr e-lyfrau, offer ffotograffiaeth a fideo am ddim, ac mae argraffwyr, sganwyr a llungopïwyr ar gael ar draws ein campws.










# Undeb y Myfyrwyr

Saif Undeb y Myfyrwyr wrth galon ein campws a dyma’r canolbwynt ar gyfer bywyd myfyrwyr.

Mae’r Undeb yn galluogi myfyrwyr i ddweud eu dweud ar sut y caiff y Brifysgol ei rhedeg, ac yn darparu cyngor diduedd am ddim ar ystod o faterion. Mae’r Undeb yn hwb ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, ac mae’n gartref i dros 100 o glybiau a chymdeithasau, sy’n amrywio o Chwarae Gemau Fideo i Taylor Swift. Ac os na allwch ddod o hyd i glwb neu gymdeithas sy’n addas i chi, bydd Undeb y Myfyrwyr yn eich helpu i sefydlu un.

Mae Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aber (UMCA) yn rhoi platfform i fyfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, gan sicrhau bod ganddynt gynrychiolaeth ar bob agwedd o waith y Brifysgol. Mae UMCA hefyd yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.





# Chwaraeon a Ffitrwydd

Mae Aberystwyth yn ddewis ardderchog i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn chwaraeon, ffitrwydd a gweithgareddau awyr agored.

Mae ein Canolfan Chwaraeon wedi'i lleoli ar y campws ac mae'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau ac offer, gan gynnwys pwll, trac rhedeg, wal ddringo a champfa hunan-bweru. Mae myfyrwyr sy'n byw yn llety'r Brifysgol yn elwa o aelodaeth am ddim, sy'n golygu nad oes cost ar gyfer dosbarthiadau na defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan Chwaraeon.

Gall ein myfyrwyr hefyd fanteisio ar yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon a gynhelir gan Undeb y Myfyrwyr – o Saethyddiaeth i Ultimate Frisbee, mae rhywbeth i weddu i bob diddordeb a lefel gallu.

Mae lleoliad Aberystwyth, rhwng y mynyddoedd a'r môr, hefyd yn berffaith i fyfyrwyr sy'n mwynhau gweithgareddau awyr agored, megis padlfyrddio, beicio mynydd a heicio.

















# Y Celfyddydau a Diwylliant

### Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw un o'r rhai mwyaf yng Nghymru. Wedi'i lleoli yng nghanol ein campws, mae'r Ganolfan yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i'n myfyrwyr gymryd rhan a mwynhau'r celfyddydau. Mae'r Ganolfan yn gartref i sinema, theatr, stiwdio ac orielau, yn ogystal â bar, bwyty a siop.

## Cerddoriaeth yn Aberystwyth

Mae'r ddarpariaeth gerddoriaeth yn Aberystwyth yn agored i bob myfyriwr. Pa bwnc bynnag yr ydych yn ei astudio fe'ch gwahoddir i fod yn rhan o gymdeithas gerddorol fywiog.

Mae'r Brifysgol yn cynnig gofodau ymarfer, cyfleoedd am hyfforddiant ac amrywiaeth o Ysgoloriaethau Cerdd. Mae ein myfyrwyr ac aelodau'r gymuned yn dod at ei gilydd fel ensembles, cerddorfeydd, bandiau cyngerdd a chorau yn ogystal ag mewn grwpiau llai i offerynnau penodol.





# Cefnogi ein myfyrwyr

Mae lles ein myfyrwyr yn flaenoriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi ein myfyrwyr. Rydym yn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion academaidd, pryderon ariannol, anawsterau corfforol ac emosiynol, a mwy.

### Cymorth a Lles Myfyrwyr

Mae ein tîm o gynghorwyr arbenigol yn darparu lle diogel ac yn gwarantu cyfrinachedd fel y gall myfyrwyr siarad am unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu gallu i astudio. Mae ein gwasanaethau cymorth yn cynnwys:

**Y Gwasanaeth Cyngor ac Arian**

Cynigir cymorth gyda phob math o faterion, gan gynnwys llety, cynnydd academaidd a bywyd yn y brifysgol.

**Y Gwasanaeth Hygyrchedd**

Sicrhau bod bywyd y brifysgol yn hygyrch i bawb, gyda chymorth i fyfyrwyr ag anableddau, y rhai sydd ag anghenion dysgu penodol, y rhai sy'n gadael gofal ac unigolion eraill sydd heb gefnogaeth, megis myfyrwyr traws ac anneuaidd.

**Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr**

Defnyddir technegau arbennig i fagu gwydnwch myfyrwyr a'u cynorthwyo i reoli eu lles tra byddant yn y brifysgol, ac ar ôl hynny.

**Cyngor ar Fisâu a Mewnfudo**

Darperir cyngor arbenigol ar fisâu astudio i ddarpar fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr rhyngwladol presennol.

**Llinell nos**

Gwasanaeth gwrando annibynnol sy'n cael ei gynnal gan fyfyrwyr i fyfyrwyr. Mae'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol a gwasanaeth e-bost a negeseua cyflym.

### Tiwtoriaid Personol

Mae tiwtor personol yn cael ei roi i bob myfyriwr o blith staff academaidd ei adran. Rôl y tiwtoriaid personol yw:

- cynorthwyo eu myfyrwyr i ymgyfarwyddo â bywyd yn y brifysgol
- trafod a thywys eu cynnydd academaidd
- eu cefnogi a'u hannog yn ystod eu hastudiaethau.

### Cymorth llety

Yn ein llety, mae gennym dîm penodol o Gynorthwywyr Llety, sef cyd-fyfyrwyr sy'n rhoi cymorth ac arweiniad, gyda'r nod o greu amgylchedd cadarnhaol i fyw a dysgu ynddo. Os na all y Cynorthwywyr Llety helpu, byddant yn eich cyfeirio at rywun sy'n gallu.




Prifysgol Aberystwyth
Aberystwyth
DU
SY23 3DD

+44 (0) 1970 622021
+44 (0) 1970 623111

derbyniadau@aber.ac.uk

/Prif.Aberystwyth

@prifysgol.aberystwyth

/prifysgolAberystwyth

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth 2025.

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%